# POLISI LWFANSAU AELODAU CYNGOR CYMUNED BODEDERN

| Cyflwyniad | |
|---|---|
| O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mae gan unigolion sydd wedi derbyn swydd fel aelod o gyngor cymuned neu dref yr hawl i dderbyn taliadau fel a benderfynir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol . Mae’r Panel yn cydnabod bod rhai swyddogaethau penodol i aelodau, yn enwedig o fewn y cynghorau cymuned a thref mwyaf yn golygu mwy o gyfrifoldeb. Mae pob cyngor felly wedi cael ei gategoreiddio yn ddibynnol ar ei incwm neu ei wariant.<br><br>Mae Cyngor Cymuned Bodedern yn Gyngor Grŵp 5 – Etholwyr llai na 1000<br><br>**Mae’r ddogfen hon yn rhoi:**<br>• Trosolwg o’r penderfyniadau a wnaed gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yng Nghymru mewn perthynas â thaliadau i’w gwneud gan Gyngor Grŵp 5.<br>• Datganiad o Bolisi Cyngor Cymuned Bodedern mewn perthynas â gweithredu taliadau aelodau. | |
| **Penderfyniad Rhif** | **Penderfyniad Cyngor Cymuned Bodedern** |
| Mae’n ofynnol i bob cyngor cymuned a thref i wneud taliad o £156 y flwyddyn i bob un o’u haelodau fel cyfraniad tuag at gostau a threuliau, h.y. tuag at gostau ychwanegol y cartref (gan gynnwys gwres, golau, pŵer a band eang) o weithio o gartref. | **Taliad Gorfodol**<br>Mae taliad o £156 yn orfodol i bob aelod oni bai eu bod yn hysbysu’r clerc yn ysgrifenedig nad ydynt yn ei gymryd. |
| Mae’n rhaid i gynghorau naill ai dalu £52 y flwyddyn i’w haelodau am gost nwyddau traul swyddfa sydd eu hangen i gyflawni eu rôl, neu fel arall, rhaid i gynghorau alluogi aelodau i hawlio ad-daliad llawn am gost nwyddau traul eu swyddfa. | **Taliad Gorfodol**<br>Mae’r taliad i bob aelod yn orfodol oni bai eu bod yn rhoi gwybod i’r clerc yn ysgrifenedig nad ydynt am ei dderbyn. |
| Cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol fel a ganlyn:<br>• Costau gofal ffurfiol (cofrestredig gydag Arolygiaeth Gofal Cymru) i’w talu fel y dangosir | **Taliad Gorfodol**<br>Gwneir taliad tuag at gostau angenrheidiol ar gyfer gofalu am blant ac oedolion dibynnol (a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol ar yr amod ei fod wedi’i gysylltu’n |

| | |
|---|---|
| • Costau gofal anffurfiol (anghofrestredig) i'w talu hyd at gyfradd uchaf sy'n cyfateb i gyfraddau fesul awr y Cyflog Byw Gwirioneddol fel y'u diffinir gan y Sylfaen Cyflog Byw ar yr adeg y gwneir y costau. | briodol a busnes swyddogol neu ddyletswydd gymeradwy. Dim ond pan gyflwynir derbynebau gan y darparwr gofal y gwneir taliad. |
| Gall cynghorau cymuned a thref yng Ngrŵp 5 wneud taliad o hyd at £500 yr un i hyd at 3 o aelodau i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol i'r taliad o £156 ar gyfer costau a threuliau. Mae gwneud y taliadau yma yn ddewisiol. | **Taliad Dewisiol**<br>Nid yw'r Cyngor Cymuned yn dymuno gwneud taliadau ychwanegol o £500 ar gyfer Uwch Swyddogion. |
| Gall cynghorau cymuned a thref wneud taliadau i bob un o'u haelodau mewn perthynas â chostau teithio am fynychu dyletswyddau cymeradwy. | **Taliad Dewisiol**<br>Nid yw'r Cyngor Cymuned yn dymuno ad-dalu costau teithio i aelodau. |
| Os bydd cyngor cymuned neu dref yn penderfynu bod dyletswydd benodol yn gofyn am aros dros nos yna gall awdurdodi i ddigolledu costau cynhaliaeth i'w aelodau. | **Taliad Dewisiol**<br>Nid yw'r Cyngor Cymuned yn dymuno ad-dalu aelodau mewn perthynas ag aros dros nos. |
| Gall cynghorau cymuned a thref dalu iawndal colled ariannol i bob un o'i aelodau, pan fydd colled o'r fath wedi digwydd, ar gyfer mynychu dyletswyddau a gytunwyd.<br><br>• Hyd at £57.20 ar gyfer pob cyfnod heb fod yn fwy na 4 awr.<br>• Hyd at £114.40 ar gyfer pob cyfnod dros 4 awr ond heb fynd tu hwnt i 24 awr. | **Taliad Dewisiol**<br>Mae'r gofyniad i wneud iawn am golled ariannol yn annhebygol, fodd bynnag, bydd y cyngor yn ystyried gwneud taliad o'r fath be bai angen. |

| | |
|---|---|
| Gall pob cyngor benderfynu cyflwyno lwfans presenoldeb i aelodau. Ni chaiff swm pob taliad fod yn fwy na £30. Ni fydd gan aelod sy'n derbyn iawndal colled ariannol hawl i hawlio presenoldeb. lwfans ar gyfer yr un digwyddiad. | **Taliad Dewisiol**<br>Nid yw'r Cyngor Cymuned yn dymuno talu lwfans presenoldeb ychwanegol. |
| Gall cynghorau cymuned a thref wneud taliad Pennaeth Dinesig i'r maer / cadeirydd y Cyngor hyd at uchafswm o £1,500. Mae hyn yn ychwanegol i'r taliad o £156 at gostau a threuliau a'r lwfans uwch o £500 os hawlir hwy. | **Taliad Dewisiol**<br>Ni fydd y Cyngor Cymuned yn rhoi taliad ychwanegol i Gadeirydd y Cyngor. |
| Gall cynghorau cymuned a thref roi taliad Dirprwy Bennaeth Dinesig i ddirprwy faer / dirprwy gadeirydd y Cyngor hyd at uchafswm o £500. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £156 ar gyfer costau a threuliau a'r uwch gyflog o £500 os hawlir y rhain. | **Taliad Dewisiol**<br>Nid fydd y Cyngor Cymuned yn rhoi taliad ychwanegol i Is-Gadeirydd y Cyngor. |

## Gwneud Taliadau

Mae pob aelod yn gymwys i gael eu lwfansau o ddechrau'r flwyddyn ariannol (oni bai eu bod yn cael eu hethol yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol).

- Gall unrhyw aelod unigol wneud penderfyniad personol i eithrio ei hunan yn gyfangwbl neu'n rhannol o'i hawl i dderbyn unrhyw un o'r taliadau hyn trwy roi rhybudd ysgrifenedig i swyddog priodol y cyngor.
- Ni all aelodau sy'n cael cyflog uwch Band 1 neu Fand 2 gan brif gyngor (hynny yw Arweinydd, Dirprwy Arweinydd neu Aelod Gweithredol dderbyn unrhyw daliad gan gyngor cymuned neu dref ac eithrio costau teithio a chynhaliaeth a chyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth

personol, dylai unrhyw aelod sydd ag anghenion cymorth personol neu gyfrifoldebau gofalu gael ei alluogi i gyflawni ei rôl. Felly, mae'r Panel yn gorfod gwneud cyfraniad tuag at gostau gofal ar gyfer holl aelodau cynghorau cymuned a thref.

- Mae gan aelodau newydd hawl i daliad cymesur.
- Mae symiau eraill sy'n daladwy i aelodau i gydnabod cyfrifoldebau penodol yn daladwy o'r dyddiad y mae'r aelod yn ymgymryd â'r rôl yn ystod y flwyddyn ariannol.
- Fel arfer gwneir taliadau lwfansau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## Gofynion Cyhoeddi

Mae'n ofynnol i'r cyngor cymuned gyhoeddi manylion pob taliad a wnaed i aelodau unigol trwy Ddatganiad Taliadau Blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Dylid cyhoeddi'r wybodaeth hon ar holl hysbysfyrddau'r cyngor ac / neu ar y wefan (gyda mynediad rhwydd) a'i e-bostio neu ei bostio at y Panel ddim hwyrach na'r 30ain o Fedi sy'n dilyn diwedd y flwyddyn ariannol flaenorol.

**Mabwysiadwyd gan y Cyngor: 22 Ebrill 2024**